Mentrau Iaith Cymru

## At sylw Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cymru

## Ymateb Mentrau Iaith Cymru i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2016-17

**1. Cyflwyniad**

1. Mae Mentrau Iaith Cymru a'r 23 Menter Iaith leol yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i wireddu'r weledigaeth o weld y Gymraeg yn ffynnu, gan arwain at gynyddu'r nifer â'r ganran o bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn ei defnyddio fel rhan o'u bywydau bob dydd. Gofynnwn i aelodau'r Pwyllgor Cyllid graffu'n fanwl ar gynigion y Llywodraeth a chodi'r pwyntiau isod gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

**2. Ymateb Mentrau Iaith Cymru i'r Gyllideb Drafft 2016-17**

1. Un o brif nodau Llywodraeth Cymru yw gweld y Gymraeg yn ffynnu fel iaith gymunedol yng Nghymru. Rydym felly yn croesawu'r ymrwymiad pellach i ddiogelu arian craidd y Mentrau Iaith ond nid ydym yn deall pam fod cymaint o doriad i gyllideb y Gymraeg yn gyffredinol a hynny yn wyneb strategaethau niferus ac amryfal bolisïau sydd angen adnoddau i'w gwireddu.
2. Ar hyn o bryd diim ond 0.04% o gyllideb y Llywodraeth fydd yn cael ei wario ar y Gymraeg yn 2016-17.
3. Teimlwn ei fod yn bwysig nodi bod y cyllid a fuddsoddir i hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymunedol i sefydliadau yn gyllid sydd yn cael ei fuddsoddi yng Nghymunedau Cymru - cyllid sydd yn creu ac yn cynnal cannoedd o swyddi, denu arian ychwanegol o ffynonellau eraill ac yn cael traweffaith gadarnhaol ar yr economi fel y canfu adroddiad diweddar ar draweffaith economaidd y Gymraeg a Chanolfan Soar i Ferthyr Tudful[1].
4. Mae'r cyllid a ddyrennir i'r Mentrau gan Lywodraeth Cymru wedi eu galluogi i ddenu arian o ffynonellau eraill a chreu incwm preifat sy'n rhoi dros £3 am bob £1 sydd yn cael ei dderbyn gan y Llywodraeth. Mae'r arian ychwanegol, yn ogystal â chyfrannu'n uniongyrchol at economi Cymru, yn arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ar hyd a lled Cymru.
5. Mae'r toriad arfaethedig o £1,685,000 i'r Gymraeg yn y gymuned, sef 19.5% o ostyngiad o'i gymharu â llynedd[2], yn un o'r toriadau mwyaf i unrhyw gyllideb o ran canran.

[1] Gwerthusiad o draweffaith economaidd a diwylliannol Canolfan Soar, Merthyr Tudful, Arad Research, Gorffennaf 2015

[2] tudalen 14, http://gov.wales/docs/caecd/publications/151208-budget-tables-cy.pdf

6. Mae cyllideb y Gymraeg yn y gymuned yn cyfateb i wariant o 4 ceiniog yr wythnos ar gyfer pob person sydd yn byw yng Nghymru[3]. Nid ydym yn grediniol bod hyn yn ddigon o fuddsoddiad i sicrhau twf yn nefnydd y Gymraeg a gwireddu strategaethau uchelgeisiol y Llywodraeth i feithrin dwyieithrwydd fel norm yng Nghymru. Dengys cyfrifiad 2011, nad oes amser i laesu dwylo wrth weithredu er budd y Gymraeg gan bod niferoedd a'r chanrannau sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn parhau i ostwng. Ni fydd modd gweithredu ar a chyflawni hynny hyd oni cheir adnoddau digonol.
7. Mae buddsoddiad yn y Gymraeg yn fuddsoddiad tymor hir. Safbwynt a rennir gan gynllunwyr iaith ac academyddion dros y byd. Ochr yn ochr â'r buddsoddiad tymor hir hwn mae'n rhaid cynllunio strategol dros y tymor hir er mwyn gallu gwireddu llawn potensial prosiectau i hyrwyddo'r Gymraeg.
8. Rydym o'r farn bod angen diwygio'r ffordd y dyrennir cyllid i gyrff sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, gan fod y system bresennol yn ei wneud yn gynyddol anos i gynllunio'n strategol tuag at Gymru wirioneddol ddwyieithog. Mae'r toriadau arfaethedig yn arwydd o ddiffyg cynllunio hirdymor ar gyfer y Gymraeg ac yn adlewyrchiad o'r ffordd y mae sefydliadau yn cael eu gorfodi i weithio, sef cynllunio dros y tymor byr ac ar adnoddau prin. Nid yw gweithredu yn y modd hwn yn mynd i olygu y bydd y Gymraeg yn ffynnu yn y dyfodol.
9. Nid ydym yn credu bod digon o adnoddau yn cael eu neilltuo ar gyfer gwireddu nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Mae agwedd Llywodraeth Cymru yn galonogol iawn tuag at y Gymraeg, ond er mwyn gwireddu'r strategaethau, deddfau a pholisïau sydd yn trafod y Gymraeg, mae angen sicrhau adnoddau digonol er mwyn cyrraedd nodau'r strategaeth.
10. Teimlwn yn gryf fod angen inni anelu tuag at bennu cyllid penodol o 1% o gyllideb y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg, ffigwr tebyg i'r hyn a fuddsoddir yn yr iaith Fasgeg yng Nghymuned Awtomaidd Gwlad y Basg, ardal sydd yn debyg o ran demograffeg iaith a phoblogaeth i Gymru, ond ardal sydd wedi profi cynnydd cyson yn nifer a chanran siaradwyr dros y degawdau diwethaf[4]. Nid oes rhaid pennu cyllideb y Gymraeg gan un adran yn unig, yn anorfod mae dyletswydd ar holl adrannau'r llywodraeth i gynllunio traws-adrannol; a thraws-bortffolio dros y Gymraeg.
11. Mae Bil Llesiant y Dyfodol yn cynnwys y Gymraeg fel un o'r saith prif flaenoriaeth, gyda'r nod o weld 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae hyn yn cael ei fesur gyda'r 'Pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol' ac mae angen cyllid digonol i'w wireddu.
12. Mae buddsoddi yn y Gymraeg - er mwyn cryfhau ei seiliau, gwella sgiliau pobl, cynyddu defnydd a chydnabyddiaeth o sgiliau iaith yn enghraifft berffaith o'r cysyniad o wariant ataliol. Os nad ydym yn buddsoddi yn y Gymraeg, ar draws sectorau ac ar draws meysydd portffolio nawr, bydd yn anodd os nad yn amhosib adfer y Gymraeg yn y sfferau cymunedol a chymdeithasol yn y dyfodol, ac bydd yn costio llawer mwy i geisio gwneud hynny.
13. Credwn fod modd gweld buddsoddi yn y Gymraeg fel gyrrwr economaidd. Yn hanesyddol cafwyd diffyg mewn gwasanaethau hanfodol yn y Gymraeg oherwydd ei statws. Mae modd defnyddio'r gwacter hwn i greu gwasanaethau a swyddi newydd.
14. Fel cenedl, nid ydym mewn sefyllfa i aros am ddyddiau economaidd gwell i fuddsoddi yn y Gymraeg. Rydym yn cydnabod yn llawn ein bod yn wynebu hinsawdd economaidd anodd ond ar yr un pryd mae rhaid inni gydnabod bod

---

[3] poblogaeth Cymru yn ôl cyfrifiad 2011

[4] Towards a Renwed Agreement, BASQUE LANGUAGE ADVISORY BOARD, Vitoria-Gasteiz 2009

yr iaith Gymraeg yn wynebu heriau difrifol wrth fodoli ochr yn ochr ag un o'r ieithoedd mwyaf dylanwadol yn y byd. Y mwyaf mae'r Gymraeg yn colli tir fel iaith ein teuluoedd, ein cymunedau a'n pobl ifanc, y mwyaf o fuddsoddiad fydd angen yn y pendraw i adfer y sefyllfa, ac fe fyddai'n anodd iawn, os nad yn amhosib, i'w hadennill yn y dyfodol.

15. Mae'n fater o bryder gennym y bydd effaith negyddol ar y Gymraeg yn sgil y gyllideb hon.